# Aur Arts Award Uned 2 Rhan B: Trefnu pobl ac adnoddau

Cynllun

Diben y daflen waith hon yw eich helpu i adnabod yr adnoddau sy'n ofynnol ar gyfer eich prosiect arwain y celfyddydau a chreu cynllun prosiect. Os ydych yn gweithio fel rhan o dîm prosiect, rhaid i bob unigolyn gymryd cyfrifoldeb am faes arwain penodol.

Pa adnoddau fydd eu hangen arnoch ac o lle fyddwch chi'n eu cael? e.e. offer, lle, cymorth. A oes costau ynghlwm? Os felly o lle fyddwch chi'n cael yr arian? A ydych chi wedi creu cyllideb (cofiwch gynnwys y gyllideb fel dogfen ar wahân yn eich portffolio)?

Pwy yw'r cyfranogwyr neu'r brif gynulleidfa ar gyfer eich prosiect? Sut fyddwch chi'n hyrwyddo'r prosiect iddynt a'u cymell i gymryd rhan?

Sut ydych chi'n mynd i ddarparu'r prosiect? Meddyliwch am greu cynllun cam wrth gam, dyrannu rolau i eraill ac ystyried pwy arall y gallai fod angen i chi gysylltu â nhw am gymorth.

Pa mor hir fydd hi'n ei gymryd i ddarparu'ch prosiect? (Gweler canllawiau ar amserlen isod)

Beth yw eich cynlluniau ar gyfer y digwyddiad cyhoeddus/dangosiad o'ch prosiect, a sut fyddwch chi'n ei hyrwyddo? A oes angen lleoliad neu offer arnoch? A oes costau ynghlwm?

Sut ydych chi wedi cynllunio ar gyfer unrhyw ddigwyddiadau annisgwyl? Pa gynlluniau wrth gefn sydd gennych ar waith?

Sut fyddwch chi'n gwerthuso eich datblygiad o ran arwain?

Beth yw eich ystyriaethau iechyd a diogelwch? A ydych chi'n dilyn gweithdrefnau amddiffyn plant? A ydych chi wedi ystyried deddfwriaeth berthnasol arall? Gweler canllawiau ar asesu risg isod.

Asesu risg

Fel rhan o'ch cynllunio, dylech ystyried unrhyw feysydd iechyd a diogelwch neu asesu risg y bydd angen i chi feddwl amdanynt. Er enghraifft, efallai y bydd angen i chi feddwl am:

- Sŵn/cerddoriaeth
- Deunyddiau peryglus posib (e.e. paent, glud, deunyddiau celf)
- Defnydd diogel o offer trydanol
- Allanfeydd mewn argyfwng
- Diogelwch plant a phobl ifanc

| Maes asesu risg | Nodiadau o'r drafodaeth â'r cynghorydd | Camau gweithredu / cyngor y cytunwyd arnynt |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

Amserlen y prosiect

Bydd angen i chi feddwl am amserlenni ar gyfer eich prosiect. Defnyddiwch y siart hon i'ch helpu I gynllunio cerrig filltir ac amserlenni. Gallwch ddod yn ôl a thicio pethau wrth i chi eu cwblhau.

| Cam gweithredu | Person sy'n gyfrifol | Dyddiad y mae angen ei gwblhau erbyn | Dyddiad y cwblhawyd |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

Awgrym: Mae'n ddefnyddiol rhannu camau gweithredu yn bethau y mae angen i chi eu gwneud cyn, yn ystod ac ar ôl y prosiect:

- Cyn - archebu lleoliad/offer, trefnu deunyddiau/adnoddau, cwblhau asesiad risg, trefnu ffurflenni cydsynio, creu taflenni gwybodaeth/posteri, paratoi ffurflenni adborth
- Yn ystod - cymryd lluniau, myfyrio ar sut mae eich sgiliau arwain yn datblygu, cysylltu â phobl eraill, casglu adborth gan eraill
- Ar ôl - casglu adborth, asesu sut aeth y prosiect, dychwelyd offer, creu adolygiad o'r prosiect a meddwl am sut y datblygodd eich sgiliau arwain

TRINITY COLLEGE LONDON

ARTS COUNCIL ENGLAND